

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd ar
Zoom
Nos Fawrth, Tachwedd 16, 2021 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cynghorwyr: Karen G. Goswell (Cadeirydd), Gerallt Griffith, Llion Rh. Williams, Rhun Prys Jones, Huw Evans, Peredur Jenkins, Emlyn Roberts, Geraint Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb.

2. Ymddiheuriadau: Barry Jones, Mordaf Roberts a Meurig Ashton.

3. Datgan diddordeb.

Roedd Karen G. Goswell yn datgan diddordeb ynglŷn â chais cynllunio Eitem 7.c. Nid oedd yn cymryd rhan yn y drafodaeth.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 19, 2021

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 19, 2021

Eitem 5. Eitem 6.ff. Ni chafwyd cyfarfod gyda Swyddog Cefnogi Cymunedau ynglŷn ag Ein ardal Ni - Dolgellau 2035. Mae hyn oherwydd y profiad cafwyd yn Cyngor Cymuned Llanelltyd gyda dim ond un aelod yn bresennol yn y cyfarfod. O'r cyfarfod cytunodd y Swyddog anfon y cwestiynau sydd amgen sylw i'w dosbarthu i'r aelodau (trydydd tro) i gael eu sylwadau erbyn dydd Sadwrn, Hydref 30.

Ni dderbyniwyd adroddiad gan yr aelodau ond anfonodd y Clerc pedwar adroddiad i'r Swyddog.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (24/10/2021) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o gyrсияu am fis Tachwedd / Rhagfyr.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (8/11/2021) oddi wrth Senedd Cymru (trwy Un Llais Cymru) yn rhoi gwybod am eu hymgyngoriad ar yr ymchwiliad i ail gartrefi bydd yn cael ei gynnal hyd at Ionawr 14, 2022. Maent angen sylwadau unigolion.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION TACHWEDD 16, 2021

c. Llythyr (8/211/2021) oddi wrth Comisiwn Ffiniau i Gymru yn rhoi gwybod bydd Gwrandawiadau Cyhoeddus yn cael ei gynnal mewn pump lle i roi cyfle i'r cyhoedd rhoi tystiolaeth ar lafar. Gweler Cofnodion Medi 21, 2021, Eitem 6.i.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd i bedwar aelod cyfarfod i drafod y mater.dan arweiniad Karen Goswell.

ch. Copi o lythyr (8/11/2021) oddi wrth Hilary Lewis i Peredur Jenkins a Priffyrdd ynglŷn cyflwr drwg wyneb ffordd yn gyffiniau Gwernarw, Rhydymain.

Trafodwyd y mater yn ein cyfarfod Medi 21, 2021, Eitem 6.j. - copi o'r llythyr anfonwyd i Priffyrdd.

d. Llythyr (9/11/2021) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd gwaharddiad trafndiaeth dros dro ar Ffordd Ddi-ddosbarth gyferbyn â Hengwrt Garden Cottage, Rhydymain. Bydd y ffordd ar gau ar 10/11/2021 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

dd. Llythyr (11/11/2021) oddi wrth Swyddog, Cefnogi Cymunedau - Meirionnydd. Maent yn rhoi gwybod bydd Cynhadledd gyda Gwasanaeth Twristiaeth Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri 2035 ar Dachwedd 30, 2021 am 9.00yb - 12.00yp i drafod Cynllun Economi Ymweld Gwynedd ac Eryri. Mae'r llythyr yn cynnwys linc Zoom i'r gynhadledd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Cafwyd wybod mae rhai llefydd parcio am roi caniatad i camperfaniau eu defnyddio, mae awgrym yn cael ei roi i godi trethi ar dwristiaid, ac mae sefyllfa fel yn Bermo gyda gormod o dwristiaid.

Cynigiodd Karen Goswell ymuno â'r gynhadledd.

e. Llythyr (15/11/2021) oddi wrth Un Llais Cymru gydag ymateb i ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunan darpar.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/54/581. Gosod 3 ffenestr to. 2 Penucharllan, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION TACHWEDD 16, 2021

b. Llythyr (19/10/2021) yn holi os oes ddi-ddordeb gennym yn eu pecyn plannu coed i ddathlu penblwydd APCE yn 70 oed. Mae'r pecyn yn cynnwys 70 o goed brodorol; mae cyngor ar gael am leoliad i'w plannu, a chymorth i'w plannu. Llythyr (28/7/2021) gwreiddiol ar y mater derbyniwyd gan y Parc.

Anfonwyd y ddau lythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Parc nid oes gan y Cyngor dir i blannu coed.

c. Llythyr (21/10/2021) yn rhoi gwybod mae'n bosib anfon cais ar gyfer yr ail rownd am grant at gynllunio materion ymwneud â Datgarboneiddio, Twristiaeth Cynaliadwy ac Adfer Covid. Ei anfon erbyn 5/11/2021. Amgáu mae ffurflen gais a chanllawiau'r gronfa.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (2/11/2021) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

b. Llythyr (10/11/2021) oddi wrth Dawns i Bawb. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

c. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/10/2021: £1,141.39.
Balans yn y banc ar 29/10/2021: £11,436.30. (29/10/2020: £7,250.27).

ch. Amcangyfrif sefyllfa ariannol y Cyngor am weddill y flwyddyn. Bydd y taliadau yn debyg i flwyddyn ddiwethaf a gyda'r arian sydd yn y banc yn fwy na flwyddyn ddiwethaf ni fydd y Cyngor mewn dyled.

Penderfynwyd derbyn y sylw ar sefyllfa ariannol.

9. Archwilio

10. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Nid oedd gan yr aelodau sylw i godi.

11. Materion yr Aelodau

a. Mae angen adolygu ein polisiau sef: Cod Ymddygiad Aelodau, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Polisi Iaith, Protocol Datrysiad.

Mae'r polisiau ar wefan y Cyngor. Nid yw'r polisiau wedi newid ers blwyddyn diweddaf.

Penderfynwyd bod y polisiau yn gywir.

Llofnod:

Dyddiad:
